13 / 01 / 09

YSGOL NEFYN

Annwyl Riant / Rieni / Warchodwyr
Yn dilyn llwyddiant perfformiad o 'Bwli' y llynedd a 'Cip ar y Cymry' y flwyddyn cynt bydd y Clwb Theatrig yn ail ddechrau yr wythnos nesaf – Ionawr 21ain Cynhelir y Clwb yn Ysgol Botwnnog rhwng 5 a 7 ar nos Fercher. Mae'n agored i holl ddisgyblion Blwyddyn 3, 4, 5 a 6 ysgolion y dalgylch. Y gobaith eleni eto yw anelu tuag at berfformio sioe tua diwedd tymor yr haf. Mae'n gyfle gwych i ganu, dawnsio, actio, cymdeithasu a gwneud ffrinidau newydd.

Disgwylir i chi fel rhiant / rhieni gyfrannu at y costau gan anfon siec i'r Ysgol erbyn dydd Gwener, Chwefror 6ed – sef:

- £30 y tymor i un plentyn
- £20 y tymor am bob plentyn arall yn y teulu
- £15 y tymor i bob plentyn sy'n derbyn cinio am ddim

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn llenwi'r bonyn isod a'i ddychwelyd i'r ysgol ynghŷd â'r arian / siec yn daladwy i 'Clwb Theatrig Ysgolion Cynradd Llyn'

Diolch am eich cyd-weithrediad,
Yn gywir,

(Pennaeth)

……

FFURFLEN CYFRANIAD AT Y CLWB DRAMA

Amgaeaf arian / siec i dalu am 10 sesiwn yn y Clwb Drama yn Ysgol Botwnnog i (enw / au plentyn / plant) …….

Ysgol …….. .

Arwyddwyd …… Dyddiad …….